CYPE(5)-24-19 – Papur i'w nodi 22

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

National Assembly for Wales
Petitions Committee

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Lynne

Deiseb P-05-748 Bysiau Ysgol i Blant Ysgol

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi bod yn ystyried y ddeiseb uchod ers mis Ebrill 2017. Yn ystod yr amser hwnnw, mae'r Pwyllgor wedi ystyried ystod o wybodaeth a materion yn ymwneud â chludiant rhwng y cartref a'r ysgol ac wedi gohebu â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru.

Fodd bynnag, mae nifer o'r materion a godwyd gan y deisebydd, gan gynnwys darparu gwregysau diogelwch ar fysiau cyhoeddus a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i yrwyr, yn faterion a gedwir yn ôl i Senedd y DU. O ystyried hynny, yn ein cyfarfod ar 9 Gorffennaf 2019, penderfynodd y Pwyllgor gau'r ddeiseb, gan ei bod yn ymddangos nad oedd llawer yn fwy y gallem ei wneud i symud y ddeiseb ymlaen.

Wrth gau'r ddeiseb, cytunodd yr Aelodau dynnu sylw'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y ddeiseb, rhag ofn ichi ystyried edrych ar faterion yn ymwneud â chludiant ysgol yn y dyfodol.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys y testun llawn a'r ohebiaeth yn ei chylch, ar gael ar ein gwefan yn:
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=24658

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor yn ***SeneddDeisebau@cynulliad.cymru***.

Yn gywir

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPetitions@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565